

# Gwneud y gorau o'ch arian

Gwasanaeth
Cynghori Ariannol

# Gall gymryd yr amser i reoli eich arian wneud byd o wahaniaeth

Pa bynnag gyfnod bywyd rydych wedi cyrraedd - p'un a ydych yn cynilo ar gyfer pensiwn am y tro cyntaf, prynu neu rentu cartref, dechrau teulu neu'n bwriadu ymddeol - mae wastad ffyrdd o wneud i'ch arian fynd ymhellach.

Ni allwn gwmpasu popeth yn y canllaw hwn, ond byddwn yn rhoi rhywfaint o awgrymiadau ac argymhellion i'ch helpu chi ar hyd y ffordd.

## Rheoli'ch arian nawr

- Cymerwch olwg ar ein Cynllunydd Cyllideb rhad ac am ddim sy'n helpu chi i ddadansoddi'ch gwariant cartref a rheoli'ch arian.
  **moneyadviceservice.org.uk/cynllunyddcyllideb**
- Byddwch yn rheolwr arian call a darganfyddwch ffyrdd i gynilo cannoedd o bunnoedd bob blwyddyn ar filiau ynni a biliau cartref.
  **moneyadviceservice.org.uk/biliau**
- Trefnwch ba ddyledion i'w had-dalu'n gyntaf. Bydd hyn yn eich helpu chi i glirio'ch dyledion yn gynt.
  **moneyadviceservice.org.uk/sut-i-flaenoriaethu-dyledion**
- Mynnwch help os ydych yn cael trafferth gyda dyledion. Darganfyddwch le i gael cyngor am ddim ar ddyledion.
  **moneyadviceservice.org.uk/dyled**

## Cael yr arian y mae gennych hawl iddo

- Sicrhewch eich bod chi'n derbyn y swm cywir o arian. Gwiriwch eich slip cyflog a chod dreth.
  **moneyadviceservice.org.uk/deall-eich-slip-cyflog**
- Peidiwch â cholli allan ar yr help sydd ar gael - sicrhewch eich bod chi'n hawlio'r holl fudd-daliadau y mae gennych yr hawl iddynt.
  **moneyadviceservice.org.uk/hawliadau**
- Cael babi neu fabwysiadu? Darganfyddwch be gymorth sydd ar gael.
  **moneyadviceservice.org.uk/budddaliadaubabi**
- Gall blant fod yr un mor gostus ag y maen nhw'n annwyl! Cael help gyda chostau gofal plant.
  **moneyadviceservice.org.uk/help-gyda-chostau-gofal-plant**





## Cynlluniwch ar gyfer yr annisgwyl

- Cael awgrymiadau defnyddiol ar sut i amddiffyn eich teulu, eich cartref a'ch eiddo gyda'r fath gywir o yswiriant.
  **moneyadviceservice.org.uk/mathau-o-yswiriant**
- Dewiswch bwy fydd yn derbyn eich cynilion pensiwn os byddwch yn marw.
  **moneyadviceservice.org.uk/disgynyddion-ar-ol-ymddeol**
- Darganfyddwch pam y dylech chi wneud ewyllys a sut i'w wneud.
  **moneyadviceservice.org.uk/pam-gwneud-ewyllys**
- Penodwch rywun rydych yn ymddiried ynddynt a allai gweithredu ar eich rhan os na allwch reoli'ch materion eich hunain.
  **moneyadviceservice.org.uk/pwer-atwrnai**
- Gall dod â pherthynas i ben achosi problemau ariannol – gall gwybod eich opsiynau hwyluso'r broses a gostwng y gost.
  **moneyadviceservice.org.uk/cyfrifiannell-ysgariad**
- Ceir twyllau o bob maint a llun. Dysgwch sut i adnabod yr arwyddion ac osgoi colli'ch arian haeddiannol.
  **moneyadviceservice.org.uk/twyll**

## Diogelwch eich dyfodol

- Meddwl ynghylch sut i brynu'ch cartref cyntaf neu gartref nesaf? Defnyddiwch y cyfrifiannell defnyddiol hwn i gyfrifo faint allwch chi fforddio.
  **moneyadviceservice.org.uk/cyfrifiannellffordd**
- Cyfrifwch faint allwch chi fforddio ei gynilo a darganfyddwch sut i osod a chyrraedd eich nod cynilo.
  **moneyadviceservice.org.uk/cynilo-rheolaidd**
- Os yw buddsoddi yn opsiwn, dyma sut allwch chi gychwyn arni.
  **moneyadviceservice.org.uk/buddsoddi-dechreuwyr**
- Sicrhewch eich bod chi mewn pensiwn gweithle.
  **moneyadviceservice.org.uk/cofrestru-awtomatig**
- Gwiriwch faint rydych yn ei gynilo a defnyddiwch ein cyfrifiannell pensiwn i ddarganfod os yw'n ddigon.
  **moneyadviceservice.org.uk/cyfrifiannellpensiwn**
- Darganfyddwch beth yw eich opsiynau ymddeol yn ogystal â thwyllau i'w hosgoi. Archebwch eich apwyntiad Pension Wise.
  **moneyadviceservice.org.uk/opsiynau-incwm-ymddeoliad**
  **pensionwise.gov.uk**
- Weithiau mae angen gweithiwr proffesiynol arnom ni i gyd i'n helpu i wneud y penderfyniadau cywir. Dewch o hyd i ymgynghorydd ariannol rheoleidig i helpu gyda'ch cynllunio.
  **moneyadviceservice.org.uk/cyfeirlyfr**

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori Ariannol** yn wasanaeth annibynnol ac wedi'i sefydlu gan y llywodraeth i helpu pobl i wneud y mwyaf o'u harian trwy roi cyngor ariannol diduedd a di-dâl i bawb ledled y DU – ar-lein a dros y ffôn.

**Gwneud y gorau o'ch arian** yw un o'r canllawiau mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn eu cynnig. I weld ystod lawn ein canllawiau, ewch i **moneyadviceservice.org.uk/canllawiau-printiedig-am-ddim**

Llinell Gymorth Ariannol **0800 138 0555***
Typetalk **1800 1 0800 915 4622**

Os hoffech y canllaw hwn mewn fformat Braille, print bras neu ar ffurf sain cysylltwch â ni ar y rhifau uchod.

*Galwadau am ddim. I'n helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaeth, gall galwadau cael eu recordio neu eu monitro.

Gwybodaeth yn gywir adeg mynd i'r wasg (Ebrill 2018)

Ebrill 2018
© Gwasanaeth Cynghori Ariannol Ebrill 2018
Cyfeirnod: MMOYM_Apr18_Edition1_Welsh